# Hyfforddiant alergedd ar gyfer busnesau bwyd

Hyfforddiant alergedd ar-lein ac adnoddau e-ddysgu ar gyfer busnesau bwyd.

Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ar reoli alergenau yn effeithiol.

Dylai eich staff:

- wybod y weithdrefn pan ofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth am alergenau
- gael eu hyfforddi ar sut i drin ceisiadau gwybodaeth am alergenau yn gywir
- allu gwarantu fod prydau sy'n rhydd o alergenau yn cael eu gweini i'r cwsmeriaid cywir
- wybod y risgiau o groeshalogi alergenau wrth drin a pharatoi bwyd, a sut i atal hyn.

## Hyfforddiant alergedd bwyd

Rydym yn cynnig hyfforddiant alergedd rhad ac am ddim lle y gallwch chi a'ch staff ddysgu mwy am reoli alergenau mewn cegin a sut y gallwch chi ddarparu ar gyfer gofynion gwybodaeth am alergenau.

Gallwch hefyd rannu ein rhestr wirio alergenau gyda staff i gael cyngor ar ofynion rheoli alergenau ac arfer gorau.

## Adnoddau gwybodaeth am alergenau

Mae gennym amrywiaeth o adnoddau ar gael i'ch helpu i dracio'r alergenau yn eich bwyd yn glir, ac i godi ymwybyddiaeth o sut i ddelio â cheisiadau am wybodaeth am alergenau gan gwsmeriaid.

Efallai y byddai'n syniad rhoi taflenni nodi alergenau ar gyfer y ryseitiau ar eich bwydlen i staff sy'n ymwneud â pharatoi bwyd. Gallwch ddefnyddio'r templed pryd unigol ar gyfer unrhyw brydau 'arbennig' neu i gofnodi pan fydd cynhwysion yn newid mewn pryd rheolaidd.

Efallai eich bod yn dymuno arddangos poster alergedd ar y safle. Rydym yn darparu posteri yn Gymraeg, Saesneg, Bengaleg (?????), Cantoneg (??), Pwnjabeg (??????) ac Wrdw (????).

### Deunyddiau cynllunio bwydlen

PDF
Gweld Arwydd Alergedd neu Anoddefiad bwyd (Lliw) as PDF(Open in a new window) (124.19 KB)

### Wales

PDF
Gweld Matrics alergenau - Cymraeg as PDF(Open in a new window) (74.33 KB)

### England and Northern Ireland

PDF
Gweld Matrics alergenau - Saesneg as PDF(Open in a new window) (156.47 KB)